
# Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc 2025-2027



TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Rhagair



## Y Cyng. Richard Clark

### Aelod Gweithredol Cyngor Torfaen dros Blant, Teuluoedd ac Addysg

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi am ddarllen ein Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc gyntaf.

Yn fy rôl fel Aelod Gweithredol y Cyngor dros Blant, Teuluoedd ac Addysg, rwy'n siarad â llawer o bobl ifanc ac rwy'n gwybod y gall fod yn anodd i bobl ifanc uniaethu â'r gwaith rydyn ni'n ei wneud.

Rydyn ni'n defnyddio llawer o dermau technegol fel polisïau, strategaethau, craffu ac amcanion, ac yn aml rydyn ni'n gweithio ar brosiectau sy'n cymryd amser hir i'w cyflawni.

Ond, rydyn ni'n gwneud penderfyniadau bob dydd sy'n effeithio ar eich bywyd bob-dydd chi a'ch dyfodol. Er enghraifft, penderfyniadau am ba ysgolion sy'n cael cyllid, pa gyfleusterau chwaraeon newydd y byddwn yn buddsoddi ynddyn nhw, sut rydyn ni'n cefnogi teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd, sut rydyn ni'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol a sut rydyn ni'n creu mwy o gyfleoedd lleol i gael gwaith.

Mae gennym raglen bum-mlynedd flynyddol o'r enw Torfaen y Dyfodol: Cynllun Sirol. Mae'n cyflwyno'r hyn rydyn ni eisiau ei gyflawni, a sut rydyn ni'n bwriadu ei gyflawni, erbyn 2027.

Rydyn ni wedi gwneud hyn trwy nodi naw amcan llesiant sy'n dangos sut rydyn ni eisiau gwella'r Fwrdeistref. Mae'r ddau gyntaf – a'r ddau sydd bwysicaf yn fy marn i - yn ymwneud â sut y byddwn yn helpu plant a phobl ifanc i lwyddo ac i ffynnu a sut y byddwn yn eu cefnogi i wneud hynny.

Ond, allwn ni ddim gwneud hynny heb eich help chi.

Mae arnon ni angen i chi ddweud wrthyn ni beth rydyn ni'n ei wneud yn iawn, a beth allen ni fod yn ei wneud yn well, yn eich barn chi.

Rwy'n deall nad yw bob amser yn hawdd i gael pobl i glywed eich llais, felly mae'r strategaeth hon yn esbonio sut y byddwn yn eich cefnogi i fynegi eich barn, eich teimladau a'ch dymuniadau mewn perthynas â phob mater sy'n effeithio arnoch chi.

Gobeithiwn y bydd y strategaeth hon yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth yn y pen draw – bod plant, pobl ifanc a'ch teuluoedd yn ddiogel, yn iach ac yn cyflawni eich potensial llawn.



# Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn




Yng Nghymru, rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP 1989). Mae'r Confensiwn yn amlinellu 42 Erthygl sy'n nodi'r hawliau sydd gan blant a phobl ifanc. Mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried hawliau plant ym mhopeth y maen nhw'n ei wneud.

Mae Erthygl 12 yn canolbwyntio ar yr hawl i gyfranogiad. Mae'n nodi: 'Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn, eu teimladau a'u dymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif'.

# Ein hymrwymiad i gyfranogiad

Mae Erthygl 12 yn cydnabod hawl plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar weithredoedd a phenderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Rydyn ni'n ymrwymo i'ch cynnwys a'ch cefnogi mewn ffordd ystyrlon er mwyn i chi gael llais mewn penderfyniadau a allai effeithio arnoch chi.

Os ydyn ni am sicrhau bod cyfranogiad yn effeithiol, yn ystyrlon ac yn barhaus, yna rhaid iddi fod yn broses barhaus y byddwn yn ei datblygu gyda'n gilydd, yn hytrach na gweithgaredd sy'n digwydd unwaith yn unig. Mae'n gofyn am ymrwymiad parhaus o ran eich cyfraniadau chi, ein staff ni a'n cyllid ni.

Cyfranogiad: Sut? Beth? Pam? Canllaw i weithwyr proffesiynol gan Gomisiynydd Plant Cymru 2021.

Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, UNICEF Y Deyrnas Unedig 2019.



# Ein Gwerthoedd Craidd

Mae gan Gyngor Torfaen bedwar gwerth craidd sy'n bwysig i'r ffordd yr ydyn ni'n gweithio – byddan nhw'n dylanwadu ar y ffordd y byddwn ni yn eich helpu chi i gyfranogi gyda ni.

## Cefnogol

### Byddwn ni'n:

Ddefnyddiol ac yn cyfathrebu'n glir.

Eich cynnwys chi cyn gynted ag y bo modd. Byddwn ni'n glir am yr hyn sy'n gallu newid a'r hyn sydd ddim yn gallu newid, a'r amserlen ar gyfer newid. Byddwn ni'n egluro'r opsiynau gwahanol i chi ac yn rhoi amser i chi i feddwl dros eich syniadau.

Rhannu cymaint o wybodaeth ag y gallwn gyda chi a sicrhau bod ein ffyrdd o weithio yn hygyrch, yn greadigol, yn addas i'r oedran ac yn hwyl!

Cefnogi ein staff i ddeall beth yw cyfranogiad a datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol fel eu bod yn teimlo'n hyderus i'ch cynnwys chi wrth wneud penderfyniadau.

## Teg

### Byddwn ni'n:

Eich helpu i deimlo'n ddiogel i fynegi eich barn yn glir ac yn onest. Byddwn ni'n barchus a fyddwn ni ddim yn eich beirniadu os yw eich barn yn wahanol i'n barn ni. Byddwn ni'n parchu eich preifatrwydd a fyddwn ni ddim yn rhannu eich gwybodaeth heb eich caniatâd oni bai bod yn rhaid i ni wneud hynny yn gyfreithiol.

Atebol am y penderfyniadau rydyn ni'n eich cynnwys chi ynddyn nhw ac yn ceisio rhoi gwybod i chi bob tro beth oedd y canlyniad. Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi sut y mae eich cyfranogiad wedi dylanwadu ar y canlyniad.

Sicrhau bod ein penderfyniadau'n glir, ac esbonio'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i ddod i'r penderfyniadau hyn. Byddwn ni'n sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn am y rhesymau iawn. Byddwn ni'n agored, yn onest ac yn ddibynadwy.

Eich helpu i gyfranogi a mynegi eich hun mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi. Byddwn ni'n sicrhau ein bod yn gwrando arnoch ac yn eich deall, a bod eich barn yn cael ei hystyried.

Eich annog i siarad allan os ydych chi'n teimlo nad oes unrhyw un yn gwrando arnoch neu'n deall, neu os ydych yn anghytuno â phenderfyniad a wnaed. Byddwn ni'n eich annog i siarad â'r gweithiwr proffesiynol rydych chi'n ei adnabod orau. Os nad yw hyn yn bosibl, gallwch siarad â'u rheolwr neu byddwn ni'n eich cefnogi i gysylltu â'n tîm cwynion.





## Effeithiol

**Byddwn ni'n:**

Sicrhau bod yr holl gyfathrebu yn addas ar gyfer eich oedran a'ch gallu.

Sicrhau bod cyfleoedd i gymryd rhan yn berthnasol a bod ganddyn nhw ddiben clir.

Eich annog i roi adborth i ni ac yn defnyddio'r wybodaeth i wella'r ffordd rydyn ni'n gweithio a'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

Eich helpu i ddeall rolau a chyfrifoldebau staff sy'n gweithio ochr yn ochr â chi.

Gwneud yr hyn rydyn ni'n dweud y byddwn ni'n ei wneud a bod yn onest am yr hyn y gellir ei gyflawni.

## Arloesol

**Byddwn ni'n:**

Creu lle i chi ddweud wrthym ni am eich syniadau am sut y gallem weithio'n wahanol neu sut y gallech chi newid pethau sy'n bwysig i chi.

Cydnabod y cyfraniad rydych chi'n ei wneud at y ffordd rydyn ni'n gweithio a dathlu'ch cyraeddiadau.

Dysgu am rwystrau, a'u lleihau, er mwyn eich helpu i gyfranogi.

Parhau i ddysgu a herio ein hunain i ddatblygu dulliau cyfranogi a chyfleoedd i chi gyfranogi.

# Beth yw cyfranogiad?

Mae cyfranogiad yn golygu ein bod yn gwrando arnoch chi ac yn eich deall.

I grynhoi, mae cyfranogiad yn cynnwys:

- **Cael y cyfle i fod yn rhan o benderfyniadau.**
- **Cael llais yn y gwasanaethau sy'n effeithio arnoch chi.**
- **Gallu dylanwadu ar y ffordd y mae pethau'n cael eu gwella.**
- **Cael pobl i wrando arnoch chi a gwybod y bydd yr hyn rydych chi'n ei ddweud yn cael ei gymryd o ddifrif.**
- **Gwybod pa wahaniaeth y mae eich barn a'ch syniadau wedi'i wneud.**



# Cyfranogiad mewn penderfyniadau unigol, gweithredol a strategol

**Mae'n bwysig deall eich bod yn gallu cyfrannu at benderfyniadau mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft:**

### Penderfyniadau unigol sy'n effeithio arnoch chi:

e.e. Dewis eich opsiynau TGAU.

- Mae'n benderfyniad sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eich bywyd.
- Mae'n effeithio ar eich gweithgareddau o ddydd i ddydd.
- Mae'r canlyniad yn effeithio arnoch chi yn bennaf.

### Penderfyniadau gweithredol sy'n effeithio ar bobl yn y tymor byr:

e.e. Llenwi holiadur i roi gwybod i ni sut y mae ein gwasanaethau'n gweithio neu ddim yn gweithio i chi.

- Bydd yr hyn rydych chi'n ei ddweud wrthym ni yn ein helpu i gynllunio'n gwasanaethau, eu darparu a'u gwerthuso.
- Bydd y wybodaeth yn helpu i wella ansawdd ein gwasanaethau.
- Mae'r canlyniadau yn effeithio arnoch chi a defnyddwyr eraill ein gwasanaethau.

### Penderfyniadau strategol sy'n effeithio ar bobl yn y tymor hirach:


e.e. Rydych yn aelod o Fforwm Ieuenctid y Cyngor i helpu i wella cyfleusterau a gwasanaethau i bobl ifanc.

- Gallai  eich penderfyniadau gymryd misoedd, neu hyd yn oed flynyddoedd, i ddwyn ffrwyth.
- Rydych chi'n cwrdd â phobl wahanol, gan gynnwys pobl ifanc eraill, staff a chynghorwyr i drafod, i gytuno ac i ddylunio gwelliannau.
- Mae'r canlyniad yn effeithio ar bobl ifanc yn y dyfodol.



# Modelau cyfranogiad

Mae yna sawl model sy'n gallu bod yn ddefnyddiol wrth feddwl am sut i gynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau. Rydyn ni wedi penderfynu defnyddio Model Cyfranogiad Lundy sy'n canolbwyntio ar rannau gwahanol o Erthygl 12. Mae yna bedair rhan i'r model hwn: lle, llais, dylanwad a chynulleidfa.


LLE
LLAIS
Yr hawl i fynegi barn
ERTHYGL 12
Mae barn plant yn cael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif
CYNULLEIDFA
DYLANWAD

# Rhestr wirio ar gyfer Model Cyfranogiad Lundy

Byddwn ni'n hyfforddi ein staff i ddefnyddio'r model hwn wrth weithio gyda chi.

Byddwn ni'n defnyddio ein gwerthoedd craidd ac yn sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi i ddeall yr hyn sy'n cael ei ddweud, bod eich llais yn cael ei glywed a'ch bod yn gallu rhoi eich barn yn y ffordd rydych chi eisiau ei rhoi. Byddwn yn cymryd amser i esbonio pwy sydd eisiau clywed eich barn a pham eu bod eisiau gwybod beth yw eich barn.

Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi sut y bydd eich barn yn cael ei defnyddio a beth fydd yn digwydd nesaf. Yn olaf, byddwn ni'n sicrhau ein bod yn cymryd yr hyn rydych chi'n ei ddweud wrthym o ddifrif.

## Lle

**SUT:** Darparu lle diogel a chynhwysol i blant fynegi eu barn.

- A ofynnwyd yn weithredol am farn plant?
- A oes lle diogel lle gall plant fynegi eu hunain yn rhydd?
- A gymerwyd camau i sicrhau bod pob plentyn yn gallu cyfranogi?

## Llais

**SUT:** Darparu gwybodaeth addas a hwyluso'r gallu i blant fynegi eu barn.

- A yw'r plant wedi cael y wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw i lunio barn?
- Ydy'r plant yn gwybod nad oes rhaid iddyn nhw gymryd rhan?
- A yw plant wedi cael dewis o opsiynau er mwyn iddyn nhw ddewis sut i fynegi eu hunain?

## Cynulleidfa

**SUT:** Sicrhau bod barn plant yn cael ei chyfleu i rywun sydd â'r cyfrifoldeb o wrando.

- A oes proses ar gyfer mynegi barn plant?
- A yw plant yn gwybod i bwy y mae eu barn yn cael ei mynegi?
- A oes gan yr unigolyn/corff hwnnw y pŵer i wneud penderfyniadau?

## Dylanwad

**SUT:** Sicrhau bod barn plant yn cael ei chymryd o ddifrif ac y gweithredir ar sail y farn honno, lle bo hynny'n briodol.

- A oedd y rheiny sydd â r pŵer i sicrhau newid wedi ystyried barn y plant?
- A oes gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod barn y plant wedi cael ei chymryd o ddifrif?
- A yw plant a phobl ifanc wedi cael adborth sy n esbonio r rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed?



# Manteision cyfranogiad

## Manteision i chi:

- Meithrin hyder a hunan-barch.
- Dysgu sgiliau datrys problemau, cyfathrebu a chynllunio a fydd yn eich helpu yn y dyfodol, a datblygu'r sgiliau hynny.
- Dod o hyd i'ch llais a'i werthfawrogi.
- Gwneud ffrindiau newydd a chwrdd â phobl wahanol.
- Gweld y gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud yn y gymuned.

## Manteision i ni:

- Rydyn ni'n creu gwasanaethau sy'n diwallu eich anghenion yn well.
- Mae'n cyfrannu at adeiladu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithiol, perthnasol a pharhaus.
- Mae'n ein herio ni i wneud y ffordd rydyn ni'n gweithio yn fwy cynhwysol.
- Mae'n cryfhau atebolrwydd ac eglurder ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni a'r hyn na ellir ei gyflawni.

## Meysydd y gallwch chi ddylanwadu arnyn nhw:

Rydyn ni eisiau i chi gael y rhyddid i feddwl yn greadigol am yr holl wasanaethau rydyn ni'n eu darparu a chael cyfleoedd i ddylanwadu ar y ffordd rydyn ni'n eu darparu.

Gallai hyn gynnwys:

- Sut y mae ein gwasanaethau'n gweithio, sut rydyn ni'n gwerthuso'r hyn rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n mesur ein cynnydd.
- Sut rydyn ni'n cyfathrebu â chi a phobl ifanc eraill.
- Y polisïau (cynlluniau a rheolau) yr ydyn ni'n yn eu hysgrifennu ac yn gweithio iddynt.
- Ein cynllunio strategol hirdymor (pethau sy'n cymryd mwy o amser i'w cwblhau).
- Sut rydyn ni'n gwario arian.



# Sut allwch chi gyfranogi?

Gallwch siarad â'ch ysgol am ymuno â'ch cyngor ysgol, Fforwm Ieuenctid Torfaen neu Fforwm Iau Torfaen.

Gallwch hefyd gysylltu â Swyddog Ymgysylltu a Chyfranogiad Plant a Phobl Ifanc y Cyngor, Philip Wilson, trwy anfon neges trwy e-bost i philip.wilson@torfaen.gov.uk

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed ac mae ganddo lawer o gyfleoedd i chi gyfranogi a chael pobl i wrando ar eich llais. Chwiliwch am 'Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen' ar wefan Cyngor Torfaen.

Mae Gwasanaeth Cymorth i Bobl Ifanc Torfaen yn rhoi cyfle i blant mewn gofal, neu'r rheiny sydd wedi gadael gofal, i ddweud eu dweud. Chwiliwch am 'Gwasanaeth Cymorth Pobl Ifanc Torfaen' ar wefan Cyngor Torfaen.

Os ydych chi'n ofalwr ifanc, gallwch ymuno â'r Fforwm Gofalwyr Ifanc. Chwiliwch am 'Gofalwyr Ifanc Torfaen' ar wefan Cyngor Torfaen.

Mae'r tîm Ysbrydoli yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n wynebu risg o adael addysg yn gynnar ac yn eu cefnogi i gael pobl i glywed eu llais. Chwiliwch am 'Ysbrydoli' ar wefan Cyngor Torfaen.

Gallwch godi materion gyda'ch cynghorydd sir lleol. Gallwch weld pwy yw eich cynghorydd lleol trwy fynd i wefan Cyngor Torfaen.

Os ydych rhwng 11 a 17 oed, gallwch sefyll i fod yn aelod o Senedd Ieuenctid Cymru neu Senedd Ieuenctid y DU.



# Cynghrair Ieuenctid Torfaen

Mae Cynghrair Ieuenctid Torfaen yn dod â chynrychiolwyr o sefydliadau ieuenctid yn Nhorfaen at ei gilydd i gwrdd â'r bobl sy'n llunio polisïau. Mae'r rhwydwaith yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae'r sefydliadau canlynol yn rhan o'r Gynghrair:

- Fforwm Ieuenctid Torfaen
- Fforwm Iau Torfaen
- Y Gwasanaeth Chwarae
- Y Gwasanaeth Ieuenctid
- Crownbridge
- Y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr
- Yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- Ysbrydoli Torfaen
- Gwasanaeth Cymorth i Bobl Ifanc Torfaen
- Gofalwyr Ifanc
- Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân
- TOGs Torfaen
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
- Senedd Ieuenctid Cymru
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- St Giles Cymru
- Cymdeithasau Tai Melin a Bron Afon
- Home-Start Cymru
- Cymorth Tai Torfaen
- Scouts Cymru
- Rebeliaid Ifainc

# Sut y byddwn ni'n gwirio bod y strategaeth yn gweithio?

- Bydd holl adrannau'r Cyngor yn defnyddio'r strategaeth i oleuo'r ffordd y maen nhw'n gweithio.
- Bydd gwasanaethau'n llenwi ffurflen hunanwerthuso Comisiynydd Plant Cymru i ddangos sut y maen nhw'n gwrando ar bobl ifanc, ac yn nodi meysydd i'w gwella.
- Bydd pwyllgorau craffu yn monitro sut y mae'r strategaeth yn cael ei gweithredu.
- Bydd pobl ifanc yn cael gwahoddiad i gymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgorau craffu.
- Bydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r amcanion llesiant yn ei Gynllun Sirol, i annog a hyrwyddo fel bod plant a phobl ifanc yn ffynnu.
- Bydd adroddiad blynyddol y cyngor ar safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth am sut mae'r strategaeth hon yn cael ei defnyddio i gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael llais a chael eu cymryd o ddifri.

## Sut olwg fydd ar lwyddiant yn 2025/7?

- Bydd hyfforddiant am gyfranogiad plant a phobl ifanc yn ei le ar gyfer pob aelod o staff.
- Bydd nifer y bobl ifanc sy'n mynychu grwpiau cyfranogi wedi codi.
- Bydd yr holl wasanaethau plant ac addysg wedi llenwi eu ffurflen hunanasesu gyntaf ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru.
- Bydd gennym enghreifftiau o'r ffordd y mae plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar newid.

# Diolch

Diolch i Fforwm Ieuenctid Torfaen a chydweithwyr o bob rhan o'r gwasanaethau plant a phobl ifanc, am eu cymorth a'u mewnbwn i'r strategaeth hon.

# Diolchiadau

**Cyngor Swydd Gaerhirfryn**
(Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc).

**Cyngor Dinas Caerlŷr**
(Diagram unigol, gweithredol, strategol, crynodeb o gyfranogiad).

**Listen-Act-Change**
Llawlyfr Cyngor Ewrop am gyfranogiad plant.

**Model Cyfranogiad Lundy**
Fframwaith Cyfranogiad Fframwaith Cenedlaethol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc mewn Penderfyniadau (Llywodraeth Iwerddon).



TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

© 2025 Communication Design Service, Torfaen CB Council (4103)